# Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru): Crynodeb o'r newidiadau a wnaed yng Nghyfnod 2

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r prif newidiadau a wnaed i **Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)** ("y Bil") yn ystod trafodion Cyfnod 2.

## Cefndir

Cyflwynwyd y Bil gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, ar **9 Gorffennaf 2012** ac yna cafodd ei gyfeirio gan y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ("y pwyllgor") i graffu arno yng Nghyfnod 1. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis **Tachwedd 2012**. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei **adroddiad** am ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Bil yn yr un mis. Cafodd y Bil ei gymeradwyo'n unfrydol gan y Cynulliad yng Nghyfnod 1 ar ôl dadl ar yr egwyddorion cyffredinol yn y Cyfarfod Llawn ar **4 Rhagfyr 2012**.

Dechreuodd trafodion Cyfnod 2 ar 5 Rhagfyr. Cafodd 48 o welliannau eu cyflwyno (gan gynnwys dau welliant i welliant, a 35 gan Lywodraeth Cymru). Ystyriodd y pwyllgor y gwelliannau a'u gwaredu yn ei gyfarfod ar **28 Ionawr 2013**.

Mae gwybodaeth bellach am y Bil (fel y'i cyflwynwyd) ar gael mewn **Crynodeb o'r Bil**, wedi'i baratoi gan y Gwasanaeth Ymchwil.

## Y gwelliannau a basiwyd yng Nghyfnod 2

Cafodd 38 o welliannau eu cytuno gan y pwyllgor yn ystod trafodion Cyfnod 2. Cytunwyd ar bob un o welliannau'r Llywodraeth namyn un, a wnaeth fethu (gwelliant 12 yn ymwneud ag aelodau sy'n gyflogeion). O'r gwelliannau a gyflwynwyd gan yr wrthbleidiau, cytunwyd ar bedwar (gan gynnwys dau a oedd yn welliannau i welliannau'r Llywodraeth), cafodd pedwar eu tynnu'n ôl, ac ni chynigiwyd tri. Tynnwyd dau welliant arall gan yr wrthbleidiau yn ôl cyn y cyfarfod. Dyma grynhoi'r newidiadau mwyaf sylweddol i'r Bil:

### Cynllun dirprwyo

- Roedd gwelliannau 1 a 2 yn tynnu'r pŵer oddi ar Swyddfa Archwilio Cymru ("SAC") i gymeradwyo cynllun dirprwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru ("ACC") neu unrhyw ddiwygiad i'r cynllun. Mae'r newid yn golygu mai ACC yn unig fydd yn gyfrifol am baratoi'r cynllun a'i ddiwygio mewn unrhyw ffordd, gan ymgynghori â SAC.
- Roedd gwelliant 3 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC ymgynghori â SAC wrth baratoi neu ddiwygio'r fath gynllun. SAC sy'n gyfrifol am y gyllideb ac am gyflogi'r staff a fyddai'n gweithredu o dan ddirprwyaeth ACC, a rhaid ystyried ei barn wrth ddatblygu'r cynllun, er y byddai'r trefniadau terfynol yn parhau i ddod o dan ddisgresiwn ACC.

Gwnaed y newidiadau hyn yn sgîl argymhelliad 2 y pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1.

### Darparu gwasanaethau

- Roedd gwelliannau 4 a 5 yn gosod dyletswydd ar SAC i ymgynghori ag ACC cyn cytuno ar unrhyw drefniadau, ac i ystyried pryderon y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am sicrhau ansawdd y sawl a fyddai'n arfer swyddogaethau ar ran ACC. Effaith y newid yw nad oes modd i berson arfer swyddogaethau ar ran ACC oni bai i'r swyddogaeth honno gael ei hawdurdodi a'i dirprwyo gan ACC.

Mae hyn yn dilyn argymhelliad 3 y pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1.

## Paratoi Cynllun Blynyddol ar y cyd

- Roedd gwelliant 6 yn gofyn i ACC a SAC baratoi cynllun blynyddol ar y cyd cyn pob blwyddyn ariannol, a hwnnw'n nodi'r rhaglen waith, yr adnoddau, a'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r adnoddau hynny yn y flwyddyn honno.
- Dileodd gwelliant 7 y pŵer a roddwyd i SAC o dan adran 26 i wrthod rhaglen waith arfaethedig ACC.

Gwnaed y newidiadau hyn yn sgîl argymhelliad 4 a 5 y pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1.

## Y trefniadau goruchwylio

- Gwelliannau canlyniadol oedd gwelliannau 8, 23 a 24 er mwyn cysoni'r trefniadau goruchwylio o ran ACC a chorfforaeth SAC yn y Bil drwyddo draw. Y Cynulliad sydd bellach yn penderfynu ar y trefniadau goruchwylio, yn hytrach na'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

## Cyfansoddiad bwrdd SAC

- Roedd gwelliannau 9, 9A, 10, 10A, 11, 12, 46, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 20, 21 a 22 yn ymwneud â chyfansoddiad bwrdd SAC, ac yn gweithredu argymhellion 9 a 10 y pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1. Roedd nifer ohonynt yn ganlyniadol eu natur. O'r naw aelod a fydd ar fwrdd SAC, bydd tri ohonynt bellach yn aelodau sy'n gyflogeion i'w penodi gan yr aelodau anweithredol (un wedi'i enwebu gan ACC a'r ddau arall wedi'u hethol drwy gynnal balot o'r staff, i'w gynnal gan SAC).

## Cyflogi staff SAC

- Roedd gwelliant 19 yn mynd i'r afael ag argymhelliad 14 adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor, gan ddileu'r gofyniad yn y Bil i weithdrefnau recriwtio a dethol a thelerau cyflogaeth staff SAC gydymffurfio yn fras â rhai Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu bod modd i SAC gyflogi ei staff ar ei thelerau ei hun.

## Trosglwyddo staff i SAC

- Roedd gwelliant 45 yn gwarchod y staff hynny sy'n trosglwyddo i SAC rhag diswyddo'n annheg, a dywedodd y Gweinidog bod y gwelliant wedi'i ddrafftio i fod fymryn yn fwy ffafriol na'r ddarpariaeth gyfatebol yn *Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006* ("TUPE").

## Dirprwyaethau

- Roedd gwelliant 26 yn diweddaru *Deddf Llywodraeth Cymru 1998* (fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*) i sicrhau ei bod yn cynnwys unigolyn a awdurdodwyd i weithredu ar ran yr archwilydd cyffredinol yn rhinwedd adran 18 o'r Bil wrth iddi gyfeirio at berson sy'n gweithredu ar ran yr archwilydd cyffredinol.

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

- Yn sgîl gwelliant 43, ACC yw'r person cymwys ("*qualified person*") o dan adran 36 o *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*, er bod adran 21 o'r Bil yn parhau i  ddarparu mai SAC sy'n gyfrifol am gadw'r wybodaeth y mae ACC yn ei chael.

## Paru data

- Cyflwynwyd gwelliannau 27, 28, 29, 30, 31, 32 a 33 oherwydd pryderon y pwyllgor y gallai amryw o ddarpariaethau'r Bil amharu ar allu ACC i gynnal ymarfer paru data. Roedd y Bil fel y'i cyflwynwyd yn dileu cyfeiriadau at bersonau a oedd yn gweithredu ar ran ACC a darpariaethau am baru data yn *Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004*.  Roedd y Llywodraeth o'r farn nad oedd angen y geiriau gan y byddai unrhyw berson sy'n gweithredu yn rhinwedd dirprwyaeth o dan a.18 yn gallu arfer pwerau ACC mewn perthynas â pharu data, ond roedd y pwyllgor o'r farn y byddai eu hepgor yn arwain at amheuaeth o ran gallu'r person hwnnw i arfer yr un pwerau ag ACC. Roedd y gwelliannau, felly, yn sicrhau bod hynny y tu hwnt i amheuaeth.

## Ymrwymiadau'r Gweinidog

Yn ystod trafodion Cyfnod 2, ymrwymodd y Gweinidog i fynd i'r afael â rhai materion penodol cyn y ddadl yng Nghyfnod 3. Dyma fanylion y gwelliannau perthnasol:

### Darparu gwasanaethau

- Cafodd gwelliant 44 ei gyflwyno gan Aled Roberts AC ar sail argymhelliad 3 y pwyllgor yn ei adroddiad Cyfnod 1, yn ei hanfod yn mynegi pryderon am y cydbwysedd rhwng ACC a SAC. Gofynnodd y Gweinidog i'r Aelod beidio â chynnig y gwelliant ar y sail y byddai'r Llywodraeth yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 3 i ddiogelu hyn.

### Paratoi adroddiadau interim

- Cyflwynodd Jocelyn Davies AC welliannau 40 a 41 i geisio dileu'r gofyniad i gynhyrchu dau adroddiad interim ar ben yr adroddiad blynyddol, a hynny ar y sail ei fod yn rhy feichus. Cafodd gwelliant 40 ei dynnu'n ôl ac ni chafodd gwelliant 41 ei gynnig ar y sail y byddai'r Gweinidog yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 3 i ddatgan bod yn rhaid cynhyrchu 'o leiaf un' adroddiad interim.

### Trosglwyddo staff i SAC

- Roedd gwelliannau 35 a 36 Jocelyn Davies AC yn ymwneud â diogelwch TUPE i'r staff sy'n trosglwyddo i'r sefydliad newydd. Cafodd y cyntaf ei dynnu'n ôl ac ni chynigiwyd yr ail gan i'r Gweinidog ailadrodd ei hymrwymiad i gyflwyno tri gwelliant yng Nghyfnod 3 i fynd i'r afael ag amrywio contractau cyflogi, cydnabod undebau llafur, a gwarantu cytundebau ar y cyd.

## Y camau nesaf

Paratowyd **fersiwn ddiwygiedig o'r Bil** gan y Swyddfa Ddeddfwriaeth. Dechreuodd Cyfnod 3 ar 29 Ionawr 2013 (y diwrnod ar ôl cwblhau trafodion Cyfnod 2). Mae modd i Aelodau gyflwyno gwelliannau pellach drwy'r Swyddfa Ddeddfwriaeth tan 6pm ar 26 Chwefror 2013 (**legislationoffice@cymru.gov.uk**). Cynhelir y trafodion Cyfnod 3 yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Mawrth 2013.

## Gwybodaeth bellach

I gael mwy o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r Clerc Deddfwriaeth, Sarah Beasley (**sarah.beasley@cymru.gov.uk**), ar estyniad 8032.